# y DINESYDD

HYDREF 1995 — "LLAIS Y GYMUNED" — RHIF 212

*PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH*


# YR ADAR GLAS: FYDDAN NHW'N HEDFAN YN UCHEL Y TYMOR HWN?

*Yn 1927 enillodd Clwb Pêl-droed Caerdydd gwpan yr FA, gan guro Arsenal o un gôl i ddim. Mae wedi ennill Cwpan Cymru 22 o weithiau. Mae wedi bod yng Nghynghrair Lloegr ers 1920 a bydd rhai ohonom yn cofio'r tîm yn chwarae yn yr Adran Gyntaf rai blynyddoedd wedi'r Ail Ryfel Byd. Ond daeth tro ar fyd. Mae Caerdydd bellach yn y Drydedd Adran a dyw perfformiad y tîm mor belled yn yr adran honno ddim wedi tanio brwdfrydedd neb. Ond sut mae tri o'r rhai sy'n gwybod llawer am helyntion y clwb yn ei gweld hi erbyn hyn?*



*Llun: Robin Griffith*

*Penodiad Kenny Hibbit: yn ymarferol yn hytrach nag yn llawn dychymyg*



*Llun: Robin Griffith*

*Gwaith cadw a chynnal ar y maes*

### SYLWADAU JOHN ALBERT EVANS:

Trist iawn yw wynebu tymor arall yn y drydedd adran ar ôl dau dymor digon diflas ar waelod yr ail adran. Cawsom ein syrffedu gan glywd yr *Echo* yn cyfeirio at Gaerdydd fel clwb mawr ac uchelgeisiol. Oes, mae ganddo uchelgais, sef mynd drwy'r tymor heb wario ceiniog goch ar chwaraewyr newydd, yn union fel Merthyr Tudful neu Lansanffraid. Nid yw dibynnu ar fenthyciadau neu drosglwyddiadau rhad yn ffordd ymlaen i unrhyw glwb proffesiynol.

Mae llygedeyn o obaith. O leiaf mae gan y perchennog newydd ddiddordeb mewn pêl-droed. Rhaid byw mewn gobaith ac mae gen i ryw deimlad y byddaf 'yno o hyd, er gwaethaf pawb a phopeth.'

☛ *parhad drosodd*

## TU MEWN I'CH DINESYDD...


| | |
|---|---|
| Pri-weithredwr Cyngor Dinas Caerdydd | 3 |
| Gair o'r Gaiman | 4 |
| Eisteddfod: llwyddiannau lleol | 6-7 |
| Ysgolion | 8 |
| Newyddion o'r Urdd | 9 |
| Y Tatws Duon | 10 |
| Chwaraeon | 14 |
| Tudalen y dysgwyr | 15 |

# y DINESYDD

Hydref, 1995. Rhif 212.

Cyhoeddir y Dinesydd gyda chymorth Cyngor y Celfyddydau a'r Swyddfa Gymreig. Fe'i dyluniwyd gan Newsline, Caerdydd, ac fe'i argraffwyd gan Harleys Printing, Caerdydd.


## Y TÎM GOLYGYDDOL


*Anfonwch unrhyw ddeunydd at y tîm golygyddol fel a ganlyn:*

**Mrs Tegwen Evans,** 6 Ridgeway, Llysfaen, Caerdydd CF4 5RR (754559): newyddion cyffredinol.

**Mr B D Harries**, 6 Lakeside Drive, Caerdydd (756562): newyddion byd addysg

**Mr Wyn James**, 16 Ffordd Kelston, Caerdydd (628754): newyddion yr Eglwys Newydd

**Mr W J Jones**, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (756282): cyffredinol

**Mr Gwilym Roberts**, 6 Heol Wen, Caerdydd (693254): *wedi mynd i'r Wladfa. Daw'n ôl toc.*

*Anfonwch newyddion am chwaraeon at:*
**Mr Tom Davies,** 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540)

*Anfonwch newyddion yr eglwysi at:*
**Y Parchedig Gwilym Davies**, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd (626811)


## Y RHIFYN NESAF

Ein huchelgais yw cael Y Dinesydd ichi mor agos ag sy'n bosibl at y cyntaf o bob mis. Oherwydd hyn, bydd yn rhaid i ni gael pob deunydd mewn da bryd. Bydd deunydd rhifyn Tachwedd yn mynd i Newsline ar 6 Hydref, felly anfonwch unrhyw ddeunydd at un o'r panel golygyddol ar unwaith.

## HYSBYSEBION

Mae'r Dinesydd yn ffordd ddelfrydol i gyrraedd sylw pobl Caerdydd a'r cylch. Os am hysbysebu, byddwch gystal â chysylltu â **Mr Tim Pearce, Newsline, 24 James Street, Caerdydd CF1 6EX. Ffôn 452383 Ffacs 487220.**

## DIWEDD Y GAN...

Mae'r Dinesydd yn dibynnu ar gefnogaeth ein hysbysebwyr, grantiau ac arian gan gymdeithasau ac unigolion. Os teimlwch ichi hoffi darllen y rhifynnau newydd diweddaraf, beth am ddangos eich gwerthfawrogiad trwy anfon cyfraniad at ein trysorydd. Oni ddaw cyfraniadau, bydd dyddiau'r Dinesydd yn dod i ben. Y trysorydd:
Mr Aled Williams, Rhos-y-grug, Pentwyn, Radur, Caerdydd CF4 8RE.
Cynabyddir pob rhodd ar dudalennau'r Dinesydd.

## RHODD EGLWYS DEWI SANT

Y mis hwn, cydnabyddwn yn ddiolchgar rodd o £50 gan Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas yn y ddinas. Mae Eglwys Dewi Sant yn deyrngar iawn i'r papur ac yn cyfrannu'n rheolaidd.


F

SYCHLANHAWYR
FAMAS
*Yr Arbenigwyr Glanhau*

Golchfa Broffesiynnol
Prisiau is i Bensiynwyr
Gwisgoedd Priodas
Arbenigwr Sidan
Gwasanaeth Teiliwr

2A SEVERN ROAD TREGANNA CAERDYDD
FFÔN/FFACS: 01222 382705


# YR ADAR GLAS: HEDFAN YN UCHEL?

☛ *parhad o dud. 1*

### *MEDD GWILYM BOORE:*

Yr unig beth y mae perchnogion clybiau pêl-droed yn gallu dibynnu arno yw sylw cefnogwyr, fel arfer ar ffurf beirniadaeth lem gan rai cythryblus. Eleni, am y tro cyntaf erioed, wrth siarad â rhai sy'n mynychu Parc Ninian yn rheolaidd, mae'n amlwg fod rhywbeth unigryw wedi digwydd i psyche y cefnogwyr. Er gwaethaf newid perchennog a'r gobeithion a'r addewidion arferol am oes aur newydd sy'n draddodiadol wrth i'r llyw basio o un i'r llall, mae cefnogwyr Caerdydd wedi'u taro gan ddifaterwch.

Does neb yn edrych ymlaen at yr un gêm na'r un daith benodol. Mae'r garfan cynddrwg â'r un a oedd yn dwyn embaras ar ein dinas llynedd ac mae penodiad Kenny Hibbit fel rheolwr yn ymarferol yn hytrach nag yn llawn dychymyg. Byddai penodi enw mawr, arwr lleol, efallai, wedi bod yn well, ac wedi ennyn brwdfrydedd cefnogwyr a noddwyr, ond mae'r rheiny'n ddigon prin erbyn hyn.

Mae'r argoelion ar gyfer gweddill y tymor yn wael er bod y drydedd adran yn un wan. Mae llygaid cefnogwyr pêl-droed y ddinas yn troi tuag at safonau uwch stadia a phêl-droed uwch-gynghrair Lloegr. Wrth gwrs, mae cydnabod fod agweddau a pholisiau trachwantus yr elite wedi gwthio'r brig tu hwnt i obeithion y cefnogwyr yn hanner esbonio difaterwch dilynwyr dinas Caerdydd. Oherwydd bod yr elfen gystadleuol sy'n rhan annatod o unrhyw gamp wedi diflannu gan fod yr uwch-gynghrair o fewn cyrraedd nifer fach iawn o glybiau hynod gyfoethog, mae uchelgais, sef ocsigen unrhyw glwb, wedi ildio i'r awydd i oroesi.

### *MEDD MARK AIZELWOOD:*

Ar ôl ychydig gemau, dw i wedi synnu at pa mor dda maen nhw'n chwarae. Os bydd y tîm yn dangos cysondeb fel hyn yn ystod y tymor fe fydd yn rhoi sioc i lawer o dimau yn y cynghrair. Cyn dechrau'r tymor roeddwn i'n disgwyl iddo stryffaglio ond mae hi'n gynnar iawn eto. Gobeithio y bydd y chwaraewyr newydd sy wedi dod i mewn i'r clwb yn codi'r ysbryd ond bydd yn rhaid prynu chwaraewyr. Mae Kenny Hibbitt wedi cael cychwyn da ac alle fe ddim fod wedi gofyn am fwy oddi wrth y tîm ond mae'r tymor yn hir iawn. Mae e'n hyfforddwr profiadol ar y lefel uchaf a gobeithio y caiff ddigon o gyfle hefyd yn ystod y tymor i ddysgu'r chwaraewyr ifanc yn y clwb. Nawr bod Nick Wright ac Eddie May wedi mynd hoffwn ddymuno pob llwyddiant i'r clwb achos mae cefnogwyr Caerdydd yn haeddu tîm llwyddiannus.

*ON: Pob llwyddiant i Mark sydd wedi'i benodi'n rheolwr Clwb Pêl-droed Merthyr Tudful.*

**D**

# CYFLWYNO PRIF WEITHREDWR CYNGOR DINAS CAERDYDD


Llun: Cyngor De Morgannwg

*Byron Davies*

Rydym eisoes wedi llongyfarch Mr Byron Davies ar ei benodiad. Mae ef, mab i lowr o Drimsaran, a'i wraig, Kay, yn Gymry Cymraeg ac yn byw yn Llysfaen gyda'u plant Rebecca, 16 oed a Steffan, 14 oed.

Graddiodd Mr Davies mewn peirianneg sifil yng Ngholeg y Brifysgol, Abertawe ac wedyn enillodd radd Meistr mewn Athroniaeth mewn busnes a gweinyddiaeth ar ol astudio'n rhan amser tra'n gweithio.

Ers ei benodiad rhoddodd inni ar ein cais amlinelliad o'i obeithion a'i fwriadau am y dyfodol a diolchwn iddo am ei barodrwydd i ymateb i'n cais. Ei obaith sicr yw 'gwneud Caerdydd yn un o brif ddinasoedd pennaf Ewrop.' Hyfryd yw deall ei fod o'r farn y dylai Caerdydd greu cysylltiad agos â gweddill y wlad mewn amrywiol ffyrdd, rhywbeth, yn ôl llawer, y mae'r brifddinas wedi'i esgeuluso i raddau helaeth yn y gorffennol. 'Rhaid inni,' meddai,' sicrhau bod Caerdydd yn cyflawni i Gymru yr hyn y mae prifddinasoedd eraill yn ei wneud i'w gwledydd hwy,' a noda ' y bydd y Cyngor newydd yn darparu arweiniad i bobl Caerdydd ac i Gymru'n gyffredinol.' Calondid inni, ddinasyddion Caerdydd, yw ei obaith y gellir 'dod â phenderfyniadau mor agos i'r gymuned a phosibl.'

Dymunwn iddo eto bob llwyddiant; y mae ei obeithion a'i fwriadau'n sicr yn rhai y carem eu gweld yn cael eu cyflawni. **D**

# CYMRU AC YEMEN




PAN OEDD Caerdydd yn ei hanterth fel porthladd allforio glo roedd llawer o'r glo hwn yn cael ei ddadlwytho yn Yemen a byddai'n cael ei lwytho wedyn i longau oedd yn mynd dros y byd.

Oherwydd y farchnad lo yma, gadawodd nifer o drigolion Yemen a dod i fyw i Gaerdydd ac mae nifer ohonyn nhw'n ymwybodol iawn o'r iaith Gymraeg a phethau Cymreig. Mae ganddyn nhw eu papur bro eu hunain.

Un enghraifft o'u gweithgaredd oedd yr Wyl Yemeni/Gymreig a agorwyd ar 31 Gorffennaf, gan Lysgennad Gweriniaeth Yemen, Dr Hussein Abdullah Al-Amri yng Nghanolfan Gelfyddydau Oriel yn y ddinas.

Yr un a roes gychwyn i hyn i gyd yw Patricia Aithie, y ffotograffydd enwog, y mae mynd mawr ar ei chardiau post (a rhai ei gŵr, Charles Aithie) a hi a gyflwynodd y Llysgennad. Wedi iddo agor yr ŵyl yn swyddogol, cafwyd ychydig eiriau gan Syr Richard Lloyd Jones, Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn cadarnhau'r hyn a ddywedwyd am y berthynas glos sy'n bodoli rhwng Yemen a Chymru.

Cymro Cymraeg oedd a'i waith yn amlwg yn yr arddangosfa arbennig hon yn Oriel yw David Davies, y basgedwr,un a'i wyneb yn gyfarwydd i bawb oedd yn ymweld a Sain Ffagan cyn iddo ymddeol, os dyna'r gair.

"Wedi i mi ymddeol," meddai wrth Y Dinesydd, "fe blennais i wiail yn yr ardd gefn ac rwy'n parhau i wneud basgedi." Ar gyfer y casgliad, fe wnaeth nifer o gyntelli, sef basgedi helyg traddodiadol a gâi eu defnyddio am flynyddoedd yng Nghymru i gario cynnyrch gardd a fferm.

Roedd yno hefyd nifer o luniau gan Pat a Charles Aithie.

# Y PARCHEDIG D ARTHUR BOWEN

Yn gynnar yn Awst bu farw'r Parchedig David Arthur Bowen. Brodor o'r Garnant, Sir Gaerfyrddin ydoedd ac aeth i'w ofalaeth gyntaf i'r Tabernacl, Brymbo yn 1936. Yn ddiweddarach cymerodd at New Broughton hefyd. Yn 1949 symudodd i Arberth, Sir Benfro ac yn 1955 daeth i Eglwys Goffa Alfred Tilley, Tredelerch, Caerdydd. Bu am flynyddoedd yn Gaplan yn Ysbyty'r Mynydd Bychan. Cydymdeimlir yn ddwys â'i weddw, May Wynne a chyda'r plant, Sian ac Eirlys a'r wyrion a'r wyresau.

# CYNGOR Y SIAMBR

Llongyfarchion i Ceri Preece, sy'n gyfreithiwr gyda Hugh James Jones & Jenkins, ar gael ei ddewis yn aelod o Gyngor y Siambr Fasnach a Diwydiant. Mae Ceri'n fab i Mr a Mrs Moelwyn Preece.

# GAIR O'R GAIMAN...




*Golygfa o'r Gaiman ar bnawn Sul o ymyl cartref Gwilym, Ty Camwy.*


## GAN GWILYM ROBERTS

EIN GOHEBYDD YN YR ARIANNIN


Cyfarchion o'r Gaiman bell. Mae 'na heulwen ac awyr las yma bron bob dydd er ei bod yn aeaf ac yn ôl y sôn dyma'r gaeaf oeraf ers deng mlynedd a mwy ac mae wedi bod dan bwynt rhewi fwy nag unwaith.

Lawr tua Terra del Fuego maen nhw wedi cael stormydd enbyd ond ychydig o eira a welir yn y Gaiman.

Ehedais o Faes Awyr Heathrow i Madrid ac oddi yno i Buenos Aires a glanio mewn tywyllwch am bum munud wedi saith y bore amser Ariannin. Torrodd y wawr fel roeddwn i'n gadael y maes awyr. Teithiais mewn bws o Ezeiza, y maes awyr rhyngwladol ar draws y ddinas oedd yn dechrau prysuro i Aero Parque, y maes awyr mewnol i ddal awyren i Drelew - taith o ryw awr a thri chwarter, ond ugain awr mewn bws. Mae Aero Parque ger Afon Plata a gwelir Montevideo, prifddinas Paraguay ar draws yr afon oddi yno.

Ces gip ar Buenos Aires fel roedd yr awyren yn codi a gweld pa mor fawr yw hi. Rhyng'ddi hi a thalaith Buenos Aires mae'r boblogaeth tua deng miliwn. Ymhen awr a mwy ces weld y paith unwaith eto a Threlew yn y pellter yng nghanol yr anialwch. Fe lanion ni yno am 12.30 ac roedd nifer o Drelew a'r Gaiman yno i'm croesawu. Rown i'n falch eu gweld unwaith eto. Cyn imi gymryd anadl rown i mewn car yn mynd i ganol y dre i gael tynnu fy llun a chael cyfweliad ar gyfer y ddau bapur newydd lleol. Roeddwn i wedi bod yn teithio am bedair awr ar hugain ond rown i'n dal i deimlo'n hynod effro.

Wedyn i ffwrdd â ni ar draws y paith i'r Gaiman, fy nghartref am y deuddeng mis nesaf. Roedd hi fel dod adre'r tro hwn. Ces fy ngyrru at ddrws fy mwthyn, sef Ty Camwy ac fel rown i'n dod allan o'r car roedd cath ddu yn rhedeg nerth ei phawennau ar draws y ffordd ataf i'm croesawu gan fewial ac ymrwbio yn fy nghoesau - ie un o'r saith yr arferwn eu bwydo flwyddyn yn ôl ar fy ymweliad diwetha. Mae cof gan anifeilaiaid hefyd.

Mae cath ddu'n arwydd o lwc medden nhw ac yn wir wrth sgrifennu'r geiriau hyn clywais sŵn yn dod o'r gegin - un o'r pibau dŵr wedi rhewi ar ôl chwe gradd o rew yn ystod y nos. Sôn am stomp! Roedd dŵr ym mhobman.

Ar ôl dadbacio es am dro i'r stryd fawr a daeth pobl ataf i'm croesawu'n ôl, rhai'n Sbaeneg a rhai'n Gymraeg. Sylwais ar nifer o newidiadau yn y stryd megis bwth ffonio newydd o flaen yr arosfan fws i Drelew, siop grefftau newydd, fferyllfa newydd a thŷ te newydd o'r enw Tŷ Newydd. Gwelais arwydd enfawr hefyd oedd yn hysbysebu "Tŷ Te Caerdydd" sydd newydd agor yn groes i Afon Camwy - lle moethus, yn ôl y sôn. Bydd yn rhaid i mi dynnu llun ar gyfer y Dinesydd.

Cyrhaeddais y Wladfa mewn pryd i ymuno yn nathliadau Gŵyl y Glaniad a gynhelir bob blwyddyn ar 28 Gorffennaf i gofio i'r Cymry lanio ar draeth Porth Madryn ar y dyddiad hwnnw yn 1865. Rhyfedd ydy meddwl fod y bumed a'r chweched genhedlaeth yn byw yno erbyn hyn, a'u bod yn siarad Cymraeg er nad yw'r rhan fwyaf wedi bod yn agos at Gymru.

Yn y Gaiman cafwyd te parti yng Nghapel Bethel yn y pnawn a chyngerdd gyda'r nos. Yn ystod y bore bu seremoni swyddogol dan nawdd Cyngor Tre Trelew a Chymdeithas Dewi Sant i ddathlu'r achlysur a gwelwyd baner y Ddraig Goch a baner Ariannin yn chwifio ochr yn ochr ar sawl adeilad.

**D**

# CYDYMDEIMLADAU

MAE ein cydymdeimladau dwysaf â'r Dr Meredydd Evans (Mererd) a Phyllis, Cwmystwyth gan iddyn nhw golli eu hŵyr, Gareth Mclochlin beth amser yn ôl yn frawychus o sydyn ac yntau'n chwech ar hugain oed ac yntau wrth ei waith fel gofalwr yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Roedd ar drothwy gyrfa gyffrous gyda'r BBC pan gipiwyd ef oddi arnom.

Er eu bod yn byw yng Ngeredigion, mae Mered a Phyllis yn garedigion pybyr i'r Dinesydd o hyd ac yn cael eu papur yn fisol drwy'r post. Mered oedd cychwynnydd y papur bro arbennig hwn ac mae'n dyled iddo'n fawr.

# BYD Y WASG

MAE Cyngor Celfyddydau Lloegr wedi cynnig gwobr o £3,000 i'r gyfrol *Luminous and Forlorn*. Cyhoeddwyd y gwaith gan Wasg Honno a'r golygydd yw Elin ap Hywel a fu am beth amser yn swyddog yn Adran Llenyddiaeth Cyngor Celfyddydau Cymru. Bu hi a'i rhieni, Y Parchedig Eifion Powell a Mrs Rebecca Powell yn byw yn ein plith am gyfnod. Erbyn hyn mae wedi ymgartrefu ym Mhont-rhyd-y-groes yng Ngheredigion.

# CYFROL GYNTAF

MAE cyfrol gyntaf o farddoniaeth Tomos Emyr Lewis, Craig-cefn-parc, wedi ymddangos, sef *Chwarae Mig*. Roedd gwerthu da arni ar faes yr eisteddfod ym Mro Colwyn eleni. Mae Tomos Emyr yn fab i Mr a Mrs Cynric Lewis, Llysfaen ac yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gymraeg Glantaf.

# ESTYN CROESO

CROESO cynnes i'r Parchedig Milton a Rita Jenkins i Gaerdydd o Aberteifi. Maen nhw'n ymgartrefu ger Parc y Rhath. Trefnwyd cyfarfod i sefydlu'r Parchedig Milton Jenkins yn weinidog ar Eglwys y Bedyddwyr, Tonyfelin, Caerffili ar Sadwrn 2 Medi. Daeth cynulleidfa dda yno i estyn croeso iddo i'w ofalaeth newydd. Daeth llond bws yno o'i hen ofalaeth yn Aberteifi.

# ELIZABETH JOAN JOHN

CYDYMDEIMLWN â Rhidian John, ei wraig, Rhian, a'r ŵyrion Rhys a Rhiannon Elisa,Treganna a chyda'i frawd, Rhidian, ar farw'u mam, Mrs Elizabeth Joan (Bet) John, Tregaron yn ddiweddar wedi cystudd hir a blin.

# GYRFA YN DATBLYGU

LLONGYFARCHION hefyd i Ann Beynon, Treganna, wedi cael ei phenodi'n Gyfarwyddwraig Datblygu gyda Chorfforaeth Bae Caerdydd. Cyn hyn roedd Ann mewn swydd uchel gydag S4C.




# ENID JONES

AR DDIWEDD Gorffennaf bu farw Miss Enid Jones, Maynard Court, Llandaf. Fe ddaeth i Gaerdydd yn ystod y tridegau ac ymuno â staff y BBC. Bu mewn sawl swydd gyda'r Gorfforaeth. Yn ystod y rhyfel cafodd ei symud i Lundain i gynorthwyo staff adran y newyddion ac ar un adeg bu'n ysgrifenyddes i T Rowland Hughes. Fe fu'n aelod ffyddlon o Bethel, eglwys y Wesleaid yn Rhiwbeina am dros drigain mlynedd. Gwasanaethwyd yn ei hangladd gan ei gweinidog, y Parchedig Pamela Cram, a chan Mrs Tasmin Llwyd Graves, gweithwraig leyg ym Methel.

# ARWISGO LLYWYDD

AR NOS Wener 6 Hydref bydd Cymnmrodorion Caerdydd yn arwisgo eu llywydd am y flwyddyn, Mr Eurig Evans. Edrychir ymlaen at ei anerchiad a hoson hwyliog a phaned. Estynnir croeso cynnes i bawb.

# LLONGYFARCHION...

AR DDIWEDD Gorffennaf ganwyd Luned Haf, merch i Eleri ac Eryl Huw Phillips, Treganna, chwaer fach i Mirain ac ŵyres arall i Alcwyn a Llywela Evans, Gwenfo a Vincent a Margaret Philips, Parc-y-Rhath. Mae Eleri'n athrawes yn Ysgol Gyfun Llanhari a Huw'n gweithio gyda Chwmni Opus yn y ddinas.

LLONGYFARCHION HEFYD i Geraint Edwards ac Iona Jones ar eu priodas ddechrau'r haf. Mae Iona'n athrawes yn Ysgol y Wern a Geraint yn dysgu yn Llanhari. Mae'r ddau'n bwriadu ymgartrefu yn Rhiwbeina.

I RHIAN Williams Arch Williams, Cyncoed a Barry Rees, Aberteifi ar eu priodas ddechrau'r haf. Mae Rhian, sy'n hanu o'r ddinas ac yn aelod yn Newi Sant, yn athrawes Mathemateg yn ysgol Penweddig, Aberystwyth, a Barry yn athro Gwyddoniaeth yn yr un ysgol. Mae'r ddau wedi ymgartrefu ym Mhenrhyn-coch.

I LLYR Gwyndaf, Heol Sant Mihangel a Diana Watts, y Rhath ar eu priodas ddiwedd Awst.. Mae'r ddau'n bwriadu ymgartrefu yn Nhremorfa. Mae Llyr yn dilyn gyrfa ym myd ffotograffiaeth.

I VIKKI A'R Parchedig Alun Tudur, Pen-y-lan, a gweinidog newydd Ebeneser, ar enedigaeth eu mab bychan, Gwilym Tudur .

I ALED a Rhian Samuel ar enedigaeth merch fach beth amser yn ol. Fe wyddom o'r diwedd beth fydd "ar lin Sam" ond nid berfedd nos, gobeithio!

I MR DYFRIG Parri ar gael ei benodi'n Ddirprwy Bennaeth Ysgol Gymraeg Caerffili. Cyn y penodiad hwn, roedd Mr Parri yn athro yn Ysgol Gymraeg Treganna yn y ddinas. Bydd colled fawr ar ei ôl yno ac mae'r plant yn mynegi eu teimladau yn nhudalen yr ysgolion.



## CANLLAW CADAIR FREICHIAU I EISTEDDFOD BRO COLWYN:

# LLWYDDIANNAU CAERDYDD A'R CYLCH

Mae'n dda gweld bod Caerdydd a'r Cylch wedi bod yn chwarae rhan amlwg yn yr haul yn Eisteddfod Bro Colwyn. Dyma olwg ar rai o'r rhai a ddaeth i'r brig.



Llun: Robin Griffith

O'r chwith: Arran Anderson, Betsan Evans (Cynhyrchydd), Lowri Cooke, Myfanwy Jarman, Alun Roberts.

AR Y nos Sul cyntaf roedd Côr yr Eisteddfod yn canu *Offeren i'r Meirw* gan Mozart. Dwy o ferched ifanc y ddinas, sef Catrin Wyn Davies ac Elizabeth Stevens, oedd yn canu rhannau'r soprano a'r alto.

Ym myd **y ddrama** daeth trydedd wobr i Gwmni Drama Heol Crwys a welir yn ymarfer *Marchogion y Mor* yn y llun yma.

Ym myd **pensaerniaeth,** aeth y drydedd wobr yng Nghystadleuaeth Frank Lloyd Wright i Robert Keefe ac aeth y plac anrhydedd i Gareth Davies, sy'n bensaer yn y ddinas. Mae Gareth wedi cynllunio'i gartref ei hun. Y cynllun hwnnw a ddaeth â'r wobr iddo. Aeth y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth **Celfyddyd Gain**, gyda chanmoliaeth uchel, i'r ffotograffydd Paul Brewer, Caerdydd. Dyma'r tro cyntaf erioed i waith ffotograffydd ddod i'r brig ym myd Celfyddyd Gain. Aeth y drydedd wobr i Helen Clifford.

Ym myd **y bandiau pres**, rydyn ni'n hen gyfarwydd â gweld enw Band Awyrlu Sain Tathan, y Fro. Daeth yn ail yn ei adran y tro hwn.

Enillodd Mared Non Whelan o Ysgol Glantaf a'r Bont-faen y wobr gyntaf mewn cystadleuaeth linynnol ac enillodd Jonathan Shapey, Llys-faen ac Ysgol Glantaf, hefyd wobr gyntaf - ar yr unawd linynnol i rai rhwng 12 - 15 oed.

Ar y llwyfan mawr yn **y pafiliwn** daeth gwobr gyntaf i Paul Jones, Rhiwbeina, un o gyn-ddisgyblion Ysgol Glantaf yn yr unawd bas/bariton. Aeth ail wobr y gystadleuaeth soprano i Ros Evans, Y Rhath, a'r drydedd i Delyth Medi, Y Mynydd Bychan. Enillodd Ros Evans wobr gyntaf am ganu opera ar y dydd Sadwrn. Aeth ail wobr i Gôr Caerdydd o dan arweinyddiaeth Gwawr Owen. Cyn hyn roedd wedi ennill tair gwobr gyntaf ar ôl ei gilydd. Dyma her i'r côr yn Llandeilo, sef dod i'r brig unwaith eto. Bid siŵr, mae angen côr gwych i'w drechu. Côr o'r ddinas a ddaeth i'r brig oedd Côr Merched Canna.

Gan droi i fyd **llenyddiaeth,** aeth y wobr am erthygl ar gyfer cylchgrawn gwyddonol i Rhys Morris, arbenigwr ar fyd y sêr. Aeth ail wobr am drafodaeth ddychmygol rhwng eisteddfodwyr ddoe a heddiw i Llinos Davies, Dinas Powys ac ail wobr hefyd i Glennys Roberts, Yr Eglwys Newydd am ddetholiad o ddyddiaduron.

Ym myd **y dysgwyr**, enillodd Louise Hodgson wobr gyntaf am dri llyfryn byr.



Llun: Robin Griffith

*Jonathan Shapey gyda'i frawd Iestyn. Enillodd Iestyn wobr gyntaf am ganu'r ffliwt yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Bro'r Preseli yn yr unawd chwythbrennau i rai dan 12 oed..*



Llun: Robin Griffith

*Louise Hodgson ar y brig am ysgrifennu llyfr i ddysgwyr.*

*O'i geni fe fu Gwenan - yn enaid*
*Annwyl a dihunan;*
*Mae 'na faich am un fechan*
*Er y loes fe ddown i'r lan.*

Mewn ffordd, fe ddaeth y bardd "i'r lan" yn Eisteddfod Bro Colwyn, ac yntau'n cael ei goroni gan yr Archdderwydd, ei frawd, John Gwilym a'i frawd hŷn, Jim Parc-nest yn un o'r ddau a'i cyrchodd i'r llwyfan ac a lefarodd un o'r cerddi cyfarch iddo.

Geiriau olaf Gwenan Haf i'w gweinidog oedd, "Allet ti neud llun?" Gallodd, bid siŵr, ac fe luniodd ei thaid lun arall, llun mewn geiriau fydd yn fyw yn y cof am amser.

Gall Caerdydd ymfalchio hefyd yn seremoni'r dydd Mercher a gorchest Angharad Jones o Gaernarfon yn cipio'r fedal ryddiaith mewn cystadleuaeth o safon uchel. Mae canmol mawr ar ei nofel, *Y Dylluan Wen*. Mae Angharad yn gyn-ddisgybl o ysgolion Bryntaf a Rhydfelen a bu'n byw yng Nghaerdydd am flynyddoedd. Fe fydd eisteddfodwyr y ddinas yn cofio'n annwyl am gôr penillion Lisa Erfyl. Yn ystod seremoni'r coroni, cyfeiriodd yr Archdderwydd at **ddau fwrdd derw** a gomisiynwyd i ddal tlysau'r seremoniau, er cof am **Llywelyn Fadog**.

Bydd darllenwyr Y Dinesydd yn ei adnabod fel T Llywelyn Hughes a fu'n bensaer llwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol am flynyddoedd maith. Wrth ei alwedigaeth roedd yn bensaer gyda'r Bwrdd Glo. Roedd yn addoli'n gyson yn Eglwys Dewi Sant, yn Warden y Ficer ac yn Arweinydd y Gân. Fel y dengys ei enw barddol, roedd ei wreiddiau ym Mhorthmadog. Roedd yr Eisteddfod Genedlaethol yn agos iawn at ei galon.

*Gair i gloi: Ar 14eg o'r mis hwn bydd Cyngor yr Eisteddfod yn penderfynu i ba le y bydd Eisteddfod Genedlaethol 2000 yn mynd.* **D**

Gan droi i fyd **y seremoniau**, uchafbwynt y dydd Llun yn sicr oedd seremoni coroni'r bardd. Gwyddom na allwn ni, ddinasyddion, hawlio man geni'r bardd buddugol, Aled Gwyn, sy'n ohebydd gyda'r BBC ac yn byw yn Yr Eglwys Newydd ond roeddem i gyd yn falch o'i weld yn codi ar ei draed ar alwad y corn gwlad - yn falch, ac eto'n drist.

Byddwch yn cofio inni gyfeirio at golled fawr Aled Gwyn a'r teulu, gan i afiechyd blin gipio Gwenan fach a hithau'n bump oed. Byddwch yn cofio am deyrnged gofiadwy ei gweinidog, Y Parchedig Ieuan Davies a chywydd ei hewythr, Tudur Dylan Jones iddi, yr ewythr a gipiodd y gadair ar y dydd Gwener. Byddwch yn cofio hefyd am englyn ei thaid, Aled:



Llun: Robin Griffith

*Aled a Menna Gwyn gyda Choron Eisteddfod Genedlaethol*

# GWOBR ARALL

Yn ystod wythnos yr Eisteddfod fe wnaeth nifer fawr o drigolion y ddinas ymweld â stondin Marchnata Caerdydd a tra yno cawsant wybod am y gwasanaethau dwyieithog sydd i'w gael gan Gyngor y Ddinas. Bu nifer yn ateb cwestiynau ynglŷn â'u defnydd o'r Gymraeg ac wrth wneud, yn cael cyfle i ennill tocynnau i deulu o bedwar fwynhau ymweliad â'r Theatr Newydd.

Enw Mair Robins, 37 Heol Don, Yr Eglwys Newydd ddaeth allan o'r het - felly llongyfarchiadau i Mrs Robins - fe fydd hi a'i theulu yn cael dewis un o'r perfformiadau rhagorol sy yn y Theatr Newydd yn ystod tymor yr Hydref yma.

Cyfraniadau y mis hwn gan blant Ysgol Gymraeg Treganna

# HWYL FAWR, MR PARRI

Mae'r ffaith bod Mr Dyfrig Parri'n ymadael â'r ysgol i fynd i Gaerffili wedi ysgogi'r awen ymhlith rhai o'r plant. Dechreuwn gyda bardd dienw.

Y dyn caredig iawn.
Hwyl fawr ein hannwyl athro.
Ys gwn i pwy a gawn?

Hwyl fawr i blant Treganna,
Yr iard a'r ffrindiau i gyd.
Hwyl fawr i Mr Sadik
Sy'n gwerthu pakoras gorau'r byd.

Hwyl fawr i Ysgol Radnor
Yr ysgol drws nesa i ni.
Hwyl fawr i Mr Pewndry
A fu'n helpu gyda'r tŷ.

Pob lwc i ddosbarth Clwyd
Peidiwch troi'n rhy llwyd.
Bydd croeso yma i chi.
Dewch eto atom ni.



## Dyma sydd gan Simon Morton i'w ddweud:

PAN RYDW i'n meddwl am Mr Parry, rydw i'n meddwl amdano ef yn chwarae badminton a sboncen gyda Mr Davies a phan dyfodd e ei farf a'i thorri. Rydw i'n meddwl bod Mr Parri yn hoffi canu caneuon y Jambri. Ei hoff un yw 'Aderyn Melyn.' Mr Parry yw un o fy hoff athrawon, mae e'n gallu bod yn ddoniol iawn yn yr ysgol a phan mae e'n dysgu pel-droed i ni. Mae Mr Parry yn dda am ddysgu pel-droed ac unrhyw chwaraeon eraill.

Roedd Mr Parry yn gret ar y trip i Lan-llyn ac fe wnaeth i lawer o bethau doniol ddigwydd. Roedd Mr Parry yn dod i mewn i bob caban yn gofyn a oedd unrhyw un yn vegetarian. Dywedodd pawb yn ein caban ni 'na,' ond roedd Thomas B yn y tŷ bach. Gofynnodd Anthony i Thomas, 'Wyt ti'n vegetarian?' 'Na,' atebodd, 'rydw i'n meat eater.'

## Mae Danielle bron torri ei chalon ar ôl Mr Parri!

MAE MR Parri yn dal. Mae ganddo farf hir. Mae'n hoffi gwneud celf a chrefft gyda'r plant. Mae'n gweiddi ar y plant drwg. Roedd e eisiau bod yn athro ers ei fod e'n hogyn bach. Rydw i wedi ei weld yn taro mewn i bopeth ar y stryd. Mae'n gwisgo popeth sydd yn cyfatebu ac yn addas gan ei fod yn dysgu mathemateg. Gwisga esgidiau swnllyd ac mae pawb yn ei glywed e, o fore gwyn tan nos, yn carlamu yn y neuadd. Mae'n ganwr gwych! Dydw i ddim eisiau ei weld yn gadael. Mae e wedi rhoi help mawr i mi bob amser. Bydd plant Treganna yn torri eu calonnau. Cofiwch ddod i'n gweld yn aml, Mr Parri.

## A dyma Danielle a Catrin Bethan yn mydryddu amdano:

Dyn tal, golygus yw Mr Parri
Mae e'n mynd i weithio i Gaerffili.
O paid â'n gadael Mr Parri.
Bydd plant Treganna yn digalonni.

Bydd y tîm pel-droed yn dy golli.
Gobeithio bydd plant yr ysgol yn dy lonni.
O paid â'n gadel Mr Parri.
Bydd plant Treganna yn digalonni.

O na! bwmp! bwmp! ar y stryd!
Rhaid ichi beidio darllen yr un pryd!
O paid â'n gadael Mr Parri.
Bydd plant Treganna yn digalonni.

Peidiwch anghofio plant Treganna
Roeddech chi'n arfer dysgu yna.
O paid â'n gadael Mr Parri,
Bydd plant Treganna yn digalonni.

## Caiff Jessica Davies y gair olaf:

Athro yw Mr Parry
Athro heb ei ail.
Yn anffodus y mae ganddo
Dymer sydd yn eitha gwael.

Mae ei wallt yn dywyll fel y nos,
Ac mae'n defnyddio lot o lud.
Mae'n gadael nawr. Rhaid dweud 'Hwyl fawr'
Wrth athro gorau'r byd.

NEWYDDION O'R URDD

# JAMBORI LLWYDDIANNUS

AR DDIWEDD Gorffennaf cynhaliodd Yr Urdd ei jambori awyr agored gyntaf yn Stadiwm Athletaidd Lecwydd. Bu'r fenter yn llwyddiant ysgubol. Ymgasglodd dros 1500 o blant Ysgolion Cynradd Cymraeg a di-Gymraeg y sir a buont yn canu amryw o ganeuon poblogaidd dan arweiniad Martin Geraint a'i fand. Y gobaith yw trefnu jambori blynyddol a gwahodd dros 2000 o blant y flwyddyn nesaf.



*Martin Geraint yn codi hwyl*




## TRIP I MANCHESTER UNITED

AR DDECHRAU Awst aeth dros 50 o blant blynyddoedd 5 a 6 ysgolion cynradd De Morgannwg i Fanceinion.

Trefnwyd y trip gan yr Urdd i Megabowl ac yna ymlaen i Stadiwm Bel-droed Manchester United. Cafodd y plant drip o gwmpas y stadiwm gan gynnwys ymwelaid â'r amgueddfa, ystafelloedd newid y chwaraewyr, yr ystafell gyhoeddusrwydd, yr ystafell gwpanau a medalau a'r maes mawr sydd yng nghanol y stand newydd fydd yn rhoi lle i 25000 o gefnogwyr eistedd.

Diolch i blant ysgolion Melin Gruffydd, Bro Eirwg, Treganna, Coed-y-gof, Penarth, Iolo Morganwg a Sant Baruc am eu hymddygiad call ac aeddfed yn ystod y trip.


## YSGOLORIAETH CERDD

LLONGYFARCHION i Bethan Clement, Iolo Evans, Branwen Gwyn, Hywel Dafydd, Nicholas Jones, Rhodri McFadyen ac Owain Wilkins,, disgyblion yn Ysgol Glantaf ar ennill ysgoloriaeth cerdd De Morgannwg. Bydd yr ysgoloriaeth yma yn eu galluogi i dderbyn hyfforddiant proffesiynol offerynnol neu leisiol.

## CYSTADLEUAETH ROWNDERI

MAE'R Urdd am longyfarch Ysgol Gymraeg Coed-y-gof ar ennill cystadleuaeth rownderi'r Urdd De Morgannwg 1995 a hefyd Ysgol Bro Eirwg am ddod yn ail. Derbyniodd y tîm buddugol Dlws Rownderi'r Urdd.

# Y TATWS DUON



Llun: Robin Griffith

*Barry Tobin*

Ffurfiwyd Fforwm Cymru y Newyn yng Nghaerdydd eleni er mwyn cofio am y newyn mawr yn Iwerddon yn y ganrif ddiwethaf. **Barry Tobin** sydd yn manylu.

NODWEDD

Rwy'n edrych ar broblem erchyll a wynebai Iwerddon rhwng 1845 ac 1848, blynyddoedd y newyn mawr: Dyma bennill:

*Na pratai dubha dhein ar gcomharsanna do scaipeadh uiainn,*
*Do chuir ins an bPoorhouse iad, is anonn thar farraige:*
*I Reilig an tSleibhe ta ceadta acu treascartha,*
*Is uaisle na bhFlaitheas, go ngabhaid a bpairt.*

Dyma drosiad ohono:

*Y tatws duon a chwalodd ein cymdogion oddi wrthym,*
*A'u rhoi yn y Tloty, a draw dros y môr:*
*Ym mynwent y Bryn y mae cannoedd ohonynt a drechwyd,*
*A bonedd y Nef, o na baent hwy o'u plaid.*

Mae'r pennill uchod ymysg tuag ugain sy'n ffurfio cerdd hir a gyfansoddwyd fel galarnad i'w phobl golledig gan Maire Ni Paroma, llenor o wlad ardal Rinn (Ring), Swydd Port Lairge (Waterford) a welodd chwalfa y 'newyn mawr'' yn ei hamser hi ei hun.

## DECHRAU'R NEWYN

Yn gynnar yn yr hydref yn 1845 roedd hi'n hysbys i bobl Iwerddon ac i'r llywodraeth yn Llundain bod trallod ar y ffordd canys ymddangosodd y duwch ar y tatws a oedd ar bydru ar hyd a lled y wlad. Erbyn 1849, a'r pla yn dechrau darfod, roedd miliwn o bobl dlawd Iwerddon wedei marw a miliwn arall wedi ffoi dros y mor i wledeydd eraill, gan gynnwys Cymru.

Mae'n briodol inni gofio unwaith eto am y drychineb hon. I'r perwyl hwn ffurfiwyd 'Fforwm Cymru y Newyn' yng Nghaerdydd eleni er mwyn:

a) hyrwyddo diddordeb yn hanes newyn mawr Iwerddon.

b)Arwain/ysgogi ymchwil i ddarganfod beth fu ffawd a hanes y bobl a ddaeth ar ffo i Gymru yn ystod y newyn mawr a beth oedd eu dylanwad ar ddatblygiad y gymdeithas Gymreig.

c)Dyfeisio ffyrdd priodol o gofio am y llu o bobl a fu farw yn Iwerddon a thramor o achos y newyn mawr, yn enwedig y rhai a drengodd wedi iddyn nhw gyrraedd Cymru,

ch) Tynnu sylw at y tlodi a'r newyn yn y byd heddiw. Eisoes trefnwyd rhaglen 1995 fel a ganlyn:

## Y RHAGLEN

i) Dydd Mercher, 27 Medi, cyn i'r rhifyn hwn o'r Dinesydd ymddangos, cyfarfod yn yr Eglwys Norwyaidd, Bae Caerdydd. Darlith: 'Ireland's Great Famine ands its Relevance for Today,' gan Joe Murray.

ii) Dydd Sadwrn 14 Hydref, 11am hyd 5pm yn Neuadd Aberdar, Coleg Prifysgol, Caerdydd, Ysgol Undydd ar y pwnc 'Wales and the Irish Famine'. Y darlithwyr fydd Dr John Davies,

Dr Peter Gray, Dr Christine Kinealy a Dr Paul O'Leary. Manylion gsan: Mr

iii)Dydd Sadwrn 28 Hydref: 12.00 - 2.00pm yn Neuadd Dewi Sant - Arddangisfa "Y Newyn Mawr" ac ychydig o'r hanes.

iv) Dydd Iau 2 Tachwedd am 8.00yh yng Nghlwb Rygbi Pedr Sant, 118 Heol Casnewydd, Caerdydd. Bydd Patrick Cleary, athro a hanesydd o 'An Sciobairin (Skibbereen) yn siarad ar: 'The Great Famine in Skibbereen.' Mynediad am ddim, cerddoriaeth a bar.

v) Dydd Iau 19 Tachwedd am 11.00 y bore yn Eglwys Gadeiriol Dewi Sant, Stryd Siarl, Caerdydd, offeren goffa'r newyn mawr gan J. Aloysius Ward, Archesgob Caerdydd. Croeso cynnes i Gymry o bob enwad, Cymraeg a di-Gymraeg. Am fanylion pellach cysyllter a'r Yasgrifennydd, Barry Tobin, 116 Stryd Brunswick, Treganna, Caerdydd CF5 1LN, Ffon: 01222 343251. **D**

# DARLITH GYMRAEG

TREFNWYD darlith yn Gymraeg ar 'Y Newyn Mawr' gan Lyfrgell y Sir, Morgannwg Ganol: Nos Iau 23 Tachwedd am 7.30 yn Llyfrgell Maesteg. Bydd Dr Harri Pritchard-Jones yn siarad ar: 'Newyn Mawr Iwerddon trwy Lygaid y Cymry.' Ceir manylion pellach gan Jean Woodland, Llyfrgell Sir Morgannwg Ganol, Stryd y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4BA, Ffon: 01656 767451

celtic
HENDERSON CROSTHWAITE

**RHEOLWYR BUDDSODDI ANNIBYNNOL**
**Yr enw newydd ym myd Broceriaid Stoc yng Nghymru**

***Yn meddwl buddsoddi?***

***Am gyngor di-duedd dewch at yr annibynwyr!***

***Cysylltwch â Howard Bailey***

**24, Ffordd yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF1 9RW**
**ffôn (01222) 394021/6 ffacs (01222) 228452**

**Mae Celtic Henderson Crosthwaite yn enw masnachol Henderson Crosthwaite Cyf. Mae Henderson Crosthwaite Cyf yn aelod o grŵp ccc Guinness Mahon Holdings, yn aelod o Awdurdod Gwarannau a Dyfodolion ac hefyd yn aelod o Gyfnewidfa Stoc Llundain**

AMGUEDDFA AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU

**GŴYL**
***FIHANGEL***

**AMGUEDDFA WERIN CYMRU**
**SAIN FFAGAN**

**Ffair Fictoraidd,**
**Dawnsio Gwerin,**
**Gweithdai i blant,**
**Gwneud seidr**

*A MWY!*

**30.9.95 - 1.10.95**

**Ffoniwch am fanylion 01222 569441**

**SEINIAU DIWEDDARAF AR LABELI SAIN A CRAI**

**DAVID LLOYD - CYFROL II**
Y CANWR MEWN LIFRAI -
RECORDIADAU CYNNAR Y TENOR
RHWNG 1940-47 C/CD

**Y GYMANFA GANU** C/CD
23 O FFEFRYNNAU - chwaer gyfrol i EMYNAU CYMRU

**MARIAN ROBERTS** (caset)
Y SOPRANO BOBLOGAIDD O FÔN

**HEN WLAD FY MAMAU** C/CD
Albym newydd gyda MWYN/SEBON a Philip Madoc • Siân James • Elinor Bennett • Lowri Ann • Gerallt Lloyd Owen

**PAULA GARDINER** (CD) **gyda**
John Paricelli • Mark Edwards • Ron Parry - "Tales of Inclination"

**CUSAN TÂN - ESGAIR/THE RIDGE**
Caset/CD o ganeuon newydd sbon - Allan cyn hir!

YN EICH SOPAU LLEOL, NEU DRWY'R POST

SAIN • LLANDWROG • CAERNARFON • GWYNEDD
(01286) 831•111/831•497 (FFACS)

# CERDDORFA IEUENCTID YN DATHLU EI 100 OED

*MAE'R gerddorfa hon yn dathlu ei phen blwydd yn hanner cant oed eleni. Gwnaeth waith gwych ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mro Colwyn. Mae LISA THOMAS o Ysgol Glantaf yn aelod o'r gerddorfa ac mae'n rhoi cip inni ar beth sy'n digwydd wrth iddyn nhw baratoi.*

Dydd Iau 3ydd Awst rown i ar fy ffordd nerfus i Lanbedr Pont Steffan a gwybod y byddwn yn y coleg yno am bythefnos gyfan gan fy mod yn aelod o Gerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru.

Roedd yn dda gweld ambell wyneb cyfarwydd ar ol cyrraedd a gweld bod llawer yn yr un cwch a fi.

Ar ol inni gael ein clustnodi i'n stafelloedd a chael paned o de, aeth pawb ati i'r ymarfer cyntaf.

Tiwtor fy adran i oedd Lowri Blake ond rown i'n ofni gwneud ffwl ohonof fy hunan am fod y darnau modern yr oeddem yn eu chwarae mor galed, sef: Symffoni rhif 4 Shostakovich, Concerto i'r Piano gan Gershwin a thri darn cerddorfaol, ac ymdeithgan gan Berg. Ond fe'n cynorthwywyd ac fe'n paratowyd yn drylwyr iawn. Erbyn diwedd yr wythnos gyntaf fe ffarwelion ni a'n tiwtoriaid a chawsom fod yng ngofal staff y ty, ac wrth gwrs y dyn mawr ei hun, yr Arweinydd, Mr Elgar Howarth.

Roeddwn i wedi clywed gan nifer fawr o bobl am ei ddawn a'i allu i sylwi ar bobl yn chwarae'r nodau anghywir, felly yn yr ymarfer llawn cyntaf chwaraeais bopeth mor dawel ag y medrwn. Ond poeni heb reswm oeddwn i gan ei fod yn gwybod am y mannau gwan ym mhob rhan ac fe fuodd o gymorth i'r adran sawl tro gyda'i gyngor a'i ymarfer trwyadl.

## BYWYD CYMDEITHASOL GWYCH

Wrth gwrs roedd digon o fywyd cydeithasol yno yn ogystal a gwaith caled. Yn wir, mae cyrsiau'r 'Nash' yn enwog am eu hwyl. Fe gynhaliwyd twmpath, cwis, cabaret, noson y tiwtoriaid a pharti gwisg ffansi gan fod y gerddorfa eleni yn dathlu ei hanner canfed pen blwydd.

## EIN CYNGERDD CYNTAF

Erbyn dydd Gwener Awst 11 daeth yr amser ar gyfer ein cyngerdd cyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mro Colwyn ac roedd pob un yn nerfus am nad oeddem yn teimlo ein bod yn barod i berfformio, ond yn wir fe ehedodd yr amser yn yr eisteddfod ac wedi hynny a chyn pen dim roedden ni wedi chwarae yn y Theatr Newydd yng Nghaerdydd, yn Ysgol Uwchradd Abergwaun, yn Llambed a Chanolfan Casnewydd.

Cyn gynted ag y dechreuodd y cwrs roedd hi'n bryd mynd adref - ar ol ffarwelio a nifer o ffrindiau newydd. Dyma neidio i'r car ac i ffwrdd a fi yn ol i Gaerdydd. Bydd rhaid aros am flwyddyn eto cyn dychwelyd i'r cwrs nesaf.



Llun: Robin Griffith

# CYFROL BARDDONIAETH AR RESTR FER




MAE CYFROL ddiweddaraf Gwyneth Lewis (gweler uchod) o farddoniaeth, *Parables and Faxes*, ar y rhestr fer am y Forward Prize, gwobr a gaiff ei rhoi i gasgliad cyntaf o farddoniaeth. Fe gaiff y dewis ei wneud ar 12 Hydref. Pob lwc i Gwyneth.

# SWYDD NEWYDD I ANDREA

YN DDIWEDDAR, dechreuodd Andrea Miller, Cyn-bennaeth yr Ysgol Uchaf yn Rhydfelen, ar swydd newydd yn Uwch Swyddog Addysg gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Pob lwc iddi yn y swydd gyffrous hon.

## Coleg y Barri

Heol Colcot, Y Barri,
De Morgannwg, CF62 8YJ
Rhif Ffôn: Y Barri (01446) 743519

*Gwasanaethu Caerdydd a'r Fro*

MAE SWYDDI LLEOL AR GAEL I BOBL
A SGILIAU CYFRIFIADUROL YN Y GYMRAEG!

MAE COLEG Y BARRI YN CYNNIG CWRS
AR EICH CYFER

LLYTHRENNEDD CYFRIFIADUROL A
THECHNOLEG GWYBODAETH
(CLAIT)

DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Bob ddydd Mawrth rhwng 1 a 3 o'r gloch
i ddechrau ar 31ain o fis Hydref
yn cynnwys prosesu geiriau, taenlen a databas.

Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â
Vanessa Morgan
ar Barri (01446) 743519 est 267



HMSO
ORIEL

**Llyfrau Cymraeg.**
**Llyfrau Dysgwyr.**
**Llyfrau Plant.**
**Llyfrau Am Gymru.**
**Cyhoeddiadau'r Llywodraeth.**
**Safonau Prydeinig,**
**Gofal a Iechyd,**
**Mapiau OS**

***Popeth*** beth bynnag sydd eisiau arnoch.
***CLUDIANT YN RHAD AC AM DDIM.***

**Ffoniwch, anfonwch ffacs neu dewch i'n gweld.**

HMSO
ORIEL

Heol Tŷ'r Brodyr,
Caerdydd CF1 4AA.
Ffon: 01222 395548
Ffacs: 01222 384347

Derbynnir pob prif gerdyn credyd.



## DEFNYDDIWCH "LLAIS y GYMUNED"

Gall *y Dinesydd* gynnig cyfle marchnata unigryw i gyrraedd yn gyson dros 14,000 o siaradwyr Cymraeg sy'n byw yn y Brifddinas a'r cylch.

Dengys ein harolygon bod mwyafrif ein darllenwyr yn y grwpiau ABC1, ac yn eu plith mae rhai o bobol mwyaf dylanwadol y genedl. Mae cylchrediad *y Dinesydd* yn uwch o lawer nag unrhyw gyhoeddiad Cymraeg lleol neu genedlaethol arall.

Achubwch ar y cyfle marchnata unigryw yma trwy hysbysebu yn *y Dinesydd*. Mae ein cyfraddau yn rhesymol iawn, ac mae gostyngiadau ar gael ar gyfer cyfresi.

**Cysylltwch á: Tim Pearce neu Justin Webb,**
**Newsline, 24 James Street, Caerdydd CF1 6EX**
**Ffôn: 01222 452383 Ffacs: 01222 487220**

**y DINESYDD**



**Fersiynau Dos + Windows Ar Gael**

# Gwell na Gwall!

Y SILLAFYDD CYMRAEG
CySill 2.0+
THE WELSH SPELLCHECKER

**Am y tro cyntaf erioed gall y rhai sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg fanteisio'n llawn ar y dechnoleg prosesu geiriau ddiweddaraf.**

Mae CySill 2.0+ yn cynnig gwirydd sillafu a gramadeg sy'n gyfannol â llawer o'r systemau prosesu geiriau mwyaf poblogaidd. Mae'n ddelfrydol ar gyfer swyddfeydd, ysgolion a'r cartref.

**Dim ond £45!**

Am wybodaeth bellach a ffurflen archebu cysylltwch â:
**BWRDD YR IAITH GYMRAEG**
**Siambrau'r Farchnad**
**5-7 Heol Eglwys Fair**
**CAERDYDD CF1 2AT**

Curodd Cymru Foldofa ddechrau Medi - gornest gynta'r wlad o dan hyfforddwr newydd. Dyma bortread ohono gan IAN GWYN HUGHES.

# BYDDED I'R BÊL ROWLIO

**Y BÊL GRON**




**DAN OFAL TOM DAVIES**

Meddyliwch am Andre Agassi, beth mae o'n ei wneud a lle mae o'n chwarae? Dyma'r cliw cyntaf a gawsom ni mai Bobby Gould oedd i'w benodi yn rheolwr ar dîm pêl-droed Cymru. Y cysylltiad wrth gwrs yw Wimbledon, clwb lle bu Gould yn rheolwr ac fe enillon nhw Gwpan Lloegr dan ei arweiniad yn 1988 wrth guro Lerpwl.

Yng nghanolbarth Lloegr y ganwyd Gould a gydol ei yrfa bêl-droed anodd iawn oedd iddo aros yn unrhyw le am gyfnod hir. Bu'n chwarae gyda chlybiau fel Arsenal, Coventry ac Wolves yn ogystal â chlybiau llai megis Aldershot.

Cychwynnodd ar ei ysgol brofiad heb fawr ddim o ran adnoddau gyda chlwb Bristol Rovers cyn symud ymlaen i Coventry (ddwywaith), Wimbledon a West Bromwich Albion. Cefnodd ar reoli a throi ei sylw at ddarlledu gan weithio i Radio 5 a chwmni teledu Sky yn ogystal ag ysgrifennu colofn wythnosol gyda phapur newydd *Today*.

## YSFA I REOLI

Ond roedd yr ysfa i reoli yn parhau a dyna â'i denodd i wneud cais i ddod yn rheolwr ar Gymru. Wedi treulio amser yn ei gwmni, hawdd gweld sut y dylanwadodd ar y pwyllgor ethol. Mae ganddo frwdfrydedd anhygoel ar y cae ac oddi arno. Mae o'n meddu ar syniadau newydd ynghylch trefniadaeth y gêm yng Nghymru yn ogystal â sut y dylai chwaraewyr pêl-droed drin ac edrych ar ôl eu cyrff.

Mae o'n ymwybodol ei fod yn "siarad gêm dda". Yn wir fe enillodd wobr i'r gŵr oedd yn siarad mwyaf o gobbledygook yn yr iaith Saesneg. Serch hynny mi fydd yn teithio miloedd o filltiroedd i geisio gwella safon pêl-droed Cymru ar bob lefel, a phan fydd ganddo amser sbâr mae o'n gwneud ymdrech i ddod yn gyfarwydd â'r iaith Gymraeg.

A'r hyn sy'n eironig iawn yw mai cyfaill iddo, Kenny Hibbit, fu'n chwarae iddo yn Bristol Rovers, sydd bellach yn rheolwr ar glwb Caerdydd. Ar un adeg cyhuddwyd Rovers o ddwyn talentau ifainc Cymru. Mae'r rhod wedi troi. Bellach mae De Cymru yn denu talent y rhai hyn o Fryste.

**D**

# GOBAITH AM YR ORNEST

**Y BÊL HIRGRON**

TRI phwnc sydd uchaf yn ein meddyliau ni oll - yr ymweliad â De Affrica, Cwpan Ewrop a thalu chwaraewyr. 'Roedd hi'n hynod o anffodus inni ymweld â De Affrica yr adeg yr aethom - peth da ydyw chwarae'r goreuon, wrth reswm, ond nid o fewn dau fis i Gwpan y Byd a chyn dechrau ein tymor ni. Beth bynnag, a fu'r daith o werth? Do, er inni golli'n drwm ddwywaith, cafodd pum chwaraewr ifanc gyfle i arddangos eu gallu yn erbyn pencampwyr y byd - gwyddem cyn hynny fod dawn arbennig gan Gareth Thomas, ond syndod mawr i sawl un oedd gweld bod ei gyd-ganolwr o Ben-y-bont, Gareth Jones, gystal chwaraewr. Ni phlygodd Christian Leader yn y rheng flaen,dangosodd Justin Thomas, y cefnwr, y gallai daclo, ac 'roedd Andrew Moore, clo Abertawe, yn hen ddigon da i haeddu ei gap yn eilydd i Derwyn Jones. Ond mae prif wendid y wlad yn amlwg o hyd - diffyg nwyfiant a chryfder y rhan fwyaf o'r blaenwyr.

Barn yr Undeb ydyw y bydd Cwpan Ewrop sy'n dechrau ddiwedd Hydref yn hwb i'r gêm; y tri chlwb fydd yno yw Caerdydd, Abertawe a Phontypridd, ac o gael chwarae yn erbyn goreuon Ewrop gwella a wna eu safon. Tybed? Bu'r wlad yn chwarae yn erbyn goreuon y byd ers blynyddoedd lawer, ond gwaethygu y mae ei safon hi o dymor i dymor.

Gêm agored yw hi bellach - hen dro, onide? Credaf y bydd rhywbeth anesboniadwy ar goll o hyn allan, ond dyna ni. Y prif broblemau gerbron y Bwrdd Rhyngwladol ar ôl ei gyfarfod ym Mharis oedd: 1: Chwaraewyr yn symud o'r naill Undeb i'r llall (yn dilyn yr arian), ond rhagwelwyd gwaharddiad rhag symud o un tymor, neu ddau hyd yn oed, nes y byddai pawb yn gyfarwydd â'r gyfundrefn; 2: Cytundebau'r chwaraewyr a thaliadau trosglwyddo. Hwyrach y gwna Undeb Cymru fynnu i chwaraewr a gaiff arian am chwarae arwyddo cytundeb â'i glwb.

Mae gobaith cryf yr enillwn ein gornest ryngwladol nesaf - yn erbyn Fiji ar Dachwedd 11eg.

**TOM DAVIES**

# Dysgwyr y Ddinas

GAN GILL STEPHEN

## Helo 'na! Shwmae?

Shwd ych chi? Dyma ni eto ar ddechrau blwyddyn academaidd newydd. Mae'n addas felly i ni ganolbwyntio'r tro hwn ar ffyrdd gwahanol o ddweud helo. Mae'n adeg addas hefyd i newid tipyn bach ar drefn y tudalen hwn.

Fel y gwelwch byddwn ni'n croesawu cyfraniadau gan y rhai sy'n dysgu eu hunain – felly os oes gennych chi rywbeth i'w ddweud, croesair, pôs neu jôc, dyma'ch cyfle!

Ar ddechrau pob blwyddyn academaidd yn ddiweddar dyn ni wedi cael ein siomi ar yr ochr orau gan nifer y bobl sy eisiau dysgu'r Gymraeg. Mae hyn wrth gwrs yn golygu bod eisiau mwy o diwtoriaid ar eu cyfer. Felly os ydych chi'n rhugl eich Cymraeg – dim ots a ydych wedi dysgu neu'n iaith gyntaf – beth am ystyried dysgu fel tiwtor? Mae sawl sesiwn hyfforddi wedi'u trefnu yn yr ardal hon ar gyfer darpar-diwtoriaid (gweler y manylion gerllaw).

Yr unig gymhwyster sydd angen arnoch chi ydy'r awydd i helpu eraill i wireddu eu breuddwydion – ac i gael peth hwyl ar hyd y ffordd. Am fwy o fanylion dewch i un o'r sesiynau. Ffoniwch fi ar **Gaerdydd 481280.**

**GEIRFA**

**adeg** – a time
**addas** – suitable
**trefn** – order/format
**croesawu** – to welcome
**cael siom ar yr ochr orau** – get a pleasant surprise
**ystyried** – consider
**sesiwn hyfforddi** – training session
**manylion** – details
**darpar** – potential/intended
**cymhwyster** – qualification
**gwireddu breuddwyd** – make a dream come true

# GWERS HEDDIW

## Greetings throughout the day

**Bore da** – Good morning
*(bor-re da)*

**Prynhawn da** – Good afternoon
*(prinhown da)*

**Noswaith dda** – Good evening
*(noswaith tha)* The second **th** is as in '**th**ese'.

**Missing things out**
Welsh speakers often leave parts of words out. For instance, as well as **Prynhawn da** you will also hear **P'nawn da.**




Using **ti** is normal when you're talking to a child

## Talking to children or friends

There are two words for **'you'** in Welsh – **chi** and **ti.**


**Chi** is the more formal of the two and you use it when talking to an older person or to someone in a position of authority. You also use it when talking to more than one person.

**Ti** is used when you are speaking to a close friend or a child.

But be warned. Welsh learners are often criticised for using **ti** at the wrong times, so if in doubt, stick to **chi.**




**Ti** between lovers is fine.




Brutus was a close friend of Julius Caesar

**Sut wyt ti?**
**Sut rydych chi** } How are you?

**A ti?**
**A chi?** } And you?

## Sesiynau Hyfforddi De Morgannwg a'r Fro

**Mis Medi 1995**

**6fed** Dysgu'r Cwrs "Dosbarth Nos"
6.00 pm – 9.00 pm
Cyd-bwyllgor Addysg Cymru
245 Rhodfa'r Gorllewin. Ffôn 01222 265007

**19eg** Trafod dysgu darnlynol
7.00 pm.
Canolfan Palmerston, Y Barri

**20ain** Trafod dysgu darnlynol
7.00 pm
Canolfan Howardian, Colchester Avenue, Caerdydd

**23/24fed** Dysgu Modiwlau - sgilau sylfaenol
I diwtoriaid Acen yn bennaf ond yn agored i diwtoriaid newydd a thiwtoriaid a allai fod yn dysgu i Acen yn y dyfodol.
Canolfan Iaith Acen, Tŷ Ifor, 1 Stryd y Bont, Caerdydd. 01222 665455

**Mis Hydref 1995**


Yn ystod wythnos hanner tymor – Cyflwyniad i ddulliau dysgu – (Cwrs 3 diwrnod).
Canolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion
22 Park Place, Caerdydd.
Ffôn 01222 390980

**Mis Tachwedd 1995**

**10fed** Hyfforddiant ar gyfer Tiwtoriaid "Defnyddio'r Gymraeg"

**17fed** Hyfforddiant ar gyfer Tiwtoriaid "Defnyddio'r Gymraeg Uwch"
Swyddfa Colin Williams (Trefnydd Cymraeg i Oedolion Morgannwg Ganol)
Llys Canol, Ystâd Ddiwydiannol, Trefforest.
Ffôn (CBAC) 01222 265007

*Y croesair y tro hwn gan Simon Cudicio, Canolfan Iaith Acen*



**AR DRAWS**
1. By the way 4,3
5. Low 4
7. North 6
8. Step 3
10. Snowdonia 5
12. To milk 5
13. Slow 4
15. Market 7
18. Tall 3
21. Snow 4
22. Russia 5
23. Star 5
24. Night 3

**I LAWR**
2. Ladder 5
3. Museum 8
4. Bird 6
5. Bread 4
6. February 7
8. Meat 3
9. September 4
11. Home 7
14. Envelope 5
16. Sister 5
17. Department 5
19. Donkey 4
20. Try 4

**Jôc yn y Bocs**

**Jôcs – y mis hwn o'r dosbarth Wlpan yng Nghanolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion, Caerdydd.**

*Beth rydych chi'n galw dafad heb ben na choesau?*
*Cwmwl!*

*Sut rydych chi'n gwybod bod dyn ar gefn motor-beic yn hapus?*
*Yr holl bryfed marw rhwng ei ddannedd!*

*Beth rydych chi'n galw cowboi o Glwyd?*
*Fflint Eastwood!*

**Ydy'ch dosbarth chi yn gallu gwneud yn well? Danfonwch eich jôcs ata i nawr! Does dim gwobr o gwbl – dim ond y cyfle i fod yn enwog!**

# O BEN DRAW'R BYD



## Y Gair Olaf

DYMA lun o dîm rygbi Ysgol Gyfun Glantaf a gafodd daith lwyddiannus iawn yn Awstralia'n ddiweddar.

Fe chwaraeon nhw chwe gem, ac ennill pump ohonyn nhw. Ymhlith y rhai a gollodd y dydd iddyn nhw roedd Ysgol Ramadeg Brisbane ac Ysgol Uwchradd Sydney, dwy o ysgolion rygbi gorau Awstralia. Fe enillodd y tîm dan 16 oed yn erbyn Ysgolion Victoria.

Fe gollon nhw yn erbyn tîm cyfun y Traeth Aur, ond roedd y tîm hwnnw'n cynnwys bechgyn oedd lawer yn hyn ac yn drymach na nhw.

Un o ser disgleiriaf y tîm oedd Owen Jones o Radyr, yr asgellwr chwim a aeth dros y llinell gais saith o weithiau, camp nid bychan mewn gemau o safon mor uchel.

Yn y llun, fe welir (o'r chwith) Steven Evans, David Roberts o'r cyfreithwyr Hugh James Jones & Jenkins (a noddodd y tîm), Rhodri Llewellyn, Peter Manning (yr hyfforddwr), Dafydd Harries, J. E. M. Thomas (cyn-brifathro), a Cai Britton. **D**


## HYSBYS

**AR WERTH** - CELLO maint ¾ - gyda chlawr a bwa. Cyflwr fel newydd. £325 n.c.a. Ffoniwch 754559 ar ôl 6 o'r gloch.

**I'W GOSOD** - Ystafell mewn tŷ yn Nhreganna. £170 y mis. Cysyllter â (01222) 223262.

**YSTAFELL** i'w rentu mewn fflat hyfryd ym Mhenarth. Rent - £110 y mis & biliau. Cysylltwch â Gaynor, 01222 706829 wedi 6pm.

**FFURFLEN ARCHEBU HYSBYSIAD YN "HYSBYS"**

*Enw* ..................

*Cyfeiriad* ..................


*Rhif ffôn* .................. *Rhifyn mis* ..................

*Geiriau:* ..................

*Cost: 25c y gair, £5 minimum. Anfonwch siec os gwelwch yn dda, yn daladwy i "Newsline", gyda'r archeb at:* ***Newsline, 24 James Street, Bae Caerdydd CF1 6EX***


# CROESAIR AP LEWSYN

## Rhif 148 Hydref 1995



### AR DRAWS


8. Paratoais bryd o fwyd tra roedd yr ail was yn ymdaclu. (8)
9. Dweud a wnes fod y cantorion yn cyd-gordio. (6)
10. Dychrynllyd o beth! (6)
11. Priod-ddull i ddweud 'Gan bwyll.' (6)
12. Silff y llestri. (2,3,3)
13. Gorchest o waith gan Dduw a'r cerddor F.J.H. (4)
15. Bod yn y man anghywir yn y chwarae ar ol baglu a chario Cliff Morgan oddi yno. (7)
16. Lluchio yn ddiseremoni i'r gofod, heb roi unrhyw ddewis. (7)
18. Yr hyn a gawn ar arch i awgrymu fod gan yr ymadawedig hoffter at bres. (10)
19. Neges o Ferthyr yn rhybuddio mai seithug fyddai fy nghais. (4)
20. Torrais fy enw. (8)
22. Un du yw'r fwyalchen. (6)
23. Cael blas ar drin geiriau. (6)
24. Fe ledia hwn y ffordd a'r gan. (8)

### I LAWR

1. Dim ond mewn pryd. (2,5,3,2,3)
2. Mwy o ffys nag y mae'r peth yn ei gyfiawnhau. (6,3,1,5)
3. Lle i gael cic pur annymunol ar yr A5. (5,5)
4. Gorchest y llenor yn rhoi 'Lifft i blanc o lofft y blawd.' (7)
5. Cefn —— oedd cartref cariadferch dybiedig Wil Hopcyn. (4)
6. Un sy'n meindio ei fusnes ei hun. (5-10)
7. Ymostynger i ddymuniad y Tad. (7,2,6)
14. Cydnabod haelioni trwy air a chadw'r gloch i ysgwyd. (10)
17. Ai yn gyflym. (7)
21. Priodol yw cael ym mhob pentre, neuadd a siop. (4)

**Cystadleuaeth Rhif 147**: daeth chwech i law, ond cafwyd mân wallau mewn dau ohonynt. Yr enw a dynnwyd i dderbyn y tocyn llyfr oedd Buddug Roberts, 14 Coryton Crescent, Yr Eglwys Newydd. Y tri arall oedd yn hollol gywir oedd Delwyn Tibbott, Pentyrch; Mrs Gwenda Hopkins, Llanisien; a Mrs Marged Davies, Llandaf.

### DATRYSIAD RHIF 147



**Cystadleuaeth Rhif 148** Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd ap Lewsyn erbyn 17 Hydref os gwelwch yn dda.